**P-05-1030 Mesurau i atal dyfeisiau diwifr rhag cael eu defnyddio mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Camilla Watts, ar ôl casglu cyfanswm o 55 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i osod cyfyngiadau llymach ar ddefnyddio dyfeisiau diwifr mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd.

Rhaid i rieni / gofalwyr gael gwybod am y peryglon iechyd sydd wedi'u darganfod.

Rhaid sicrhau caniatâd rhieni / gofalwyr ymlaen llaw cyn gosod / defnyddio dyfeisiau WiFi.

Rhaid i'r canlyniadau canrannol fod yn glir i'r holl rieni / gofalwyr a'r rheini sydd â dyletswydd gofal.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Rhaid sicrhau nad oes dyfeisiau WiFi yn cael eu defnyddio mewn un rhan o'r adeilad ar gyfer y rhai sydd yn erbyn defnyddio'r dyfeisiau hyn.

Os yw'r canlyniadau'n dangos nad yw'r rhieni/gofalwyr yn rhoi caniatâd, a'r ysgol eisoes yn defnyddio dyfeisiau WiFi a diwifr amrywiol, rhaid dadactifadu'r WiFi/Bluetooth a rhaid rhag-raglennu cymwysiadau addysgol ar gyfrifiaduron / tabledi etc.

Cyhoeddodd WHO (Sefydliad Iechyd y Byd) ynghyd ag IARC (yr Asiantaeth Ryngwladol ar gyfer Ymchwil i Ganser) ysgrif yn archwilio pa mor garsinogenig yw ymbelydredd tonnau radio-amledd electromagnetig 30 KHZ i 300GHZ.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Ynys Môn
- Gogledd Cymru